CYNGOR CYMUNED LLANWENOG COMMUNITY COUNCIL

Neuadd y Pentref, Drefach am 7.30yh 3ydd o Hydref 2017 / 3rd October 2017

Yn bresennol / Present: Cyng Geraint Davies, Cyng Bill Green, Cyng Daniel Evans, Cyng Emyr Rees, Cyng Alwena Williams, Cyng Eluned Jones, Cyng Hazel Thomas, Cyng Brian Thomas, Cyng Euros Davies

Ymddiheiriadau/ Apologise: Cyng Gwilym Jenkins, Cyng Sion Jenkins, Cyng Helen Howells

Materion Personol/Personal Matters:
Dim Materion Personol. No Personal Matters.

1.	**Datgelu Buddianau Personol/Declare Personal Interests** Gwnaeth y Cyng Eluned Jones ddatgan diddordeb ym mhwynt 3a. *Cllr Eluned Jones declared a personal interest in point 3a.*
2.	**Cadarnhau'r Cofnodion / Agree Minutes** Cafwyd cofnodion cyfarfod mis Medi yn gywir gan y Cyng. Emyr Rees ac fe'i eiliwyd gan y Cyng Bill Green. *The September minutes were proposed as a true record by Cllr Emyr Rees and seconded by Cllr Bill Green.*
3. a.	**Materion yn Codi – Matters Arising** Cae Chwarae Cae Sarn Playing Field – Daeth ymateb wrth Paul Arnold o'r Cyngor Sir yn cynnig naill ai rhoi tsiaen newydd i'r siglenni neu ail wneud y concrid o dan y sedd. Penderfynodd pwyllgor y cae chwarae cael y tsiaen newydd. Codwyd y pwynt bod angen i'r Cyngor Cymuned fynd i archwilio'r safle, cynigwyd enw'r Cyng Emyr Rees i fynd allan i archwilio'r safle gyda'r Cyng Eluned Jones. Roedd yr archwiliad hefyd yn codi pwynt am y ffens oamgylch y safle, nid yw'n glir eiddo pwy yw'r ffens, mi fydd y Clerc yn cysylltu gyda perchnogion y cae Miss Petty. *A response was received from Paul Arnold from the County Council they are willing to either replace the swing chains or the concrete base under the bench, the park committee have opted for the swing chains. The point was raised that the Community Council need to inspect the site, Cllr Emyr Rees' name was proposed to visit and inspect the site with Cllr Eluned Jones. The inspection report also raised the matter of the parameter fence, it is not clear who owns this fence, the Clerk will contact the field owner Miss Petty.*
b.	Ymgynghoriad Cau Ysgolion – Consultation on School Closures – Nid oes ymateb ffurfiol wedi dod oddi wrth y Cyngor Sir ond dywedodd y Cyng Euros Davies bod adroddiad yn cael ei ysgrifennu ar hyn o bryd i'w roi gerbron y Cabinet a'r bwriad yw i roi ysgolion Cwrtnewydd a Llanwnnen ar y farchnad

	agored. *A formal response has not been received from the County Council however Cllr Euros Davies said that a report is currently being prepared to be presented to the Cabinet and the proposal is to put Cwrtnewydd and Llanwnnen Schools on the open market.*
c.	Cyflymder Gorsgoch Speed Limit: Nid oedd ymateb wedi ei dderbyn eto oddi wrth y Cyngor Sir ond ychwanegodd y Cyng Alwena Williams bod bws ysgol Dyffryn Cledlyn yn pigo plant fynu a'i gollwng tu allan i'r Neuadd bob dydd nawr. *No formal response had been received from the County Council to date but Cllr Alwena Williams did add that the Dyffryn Cledlyn School bus now picks up and drops off children outside the hall.*
ch.	Hyfforddiant Defibrilliwr Defibrillator Training – Cynhaliwyd yr hyfforddiant ar nos Wener y 29ain o Fedi a mynychodd 17 o bobl. Codwyd bod angen monitro'r peiriannau bob mis, newid y batri bob ryw 5 mlyneddd a newid y 'pads' unwaith bod y dyddiad sydd ar y pecyn wedi pasio, mae cost ynghlwm wrth hyn i gyd. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu gyda Sioe Cwmsychpant er mwyn gwneud yn siwr eu bod yn ymwybodol o hyn ac i wirio os mae nhw sydd yng nghofal y costau yma. Fe wnaeth person a ddaeth I'r hyfforddiant siarad gyda'r Clerc yn cynnig bod person yn cael ei benodi ymhob ardal i fod ar gael I'w ffonio petae person yn cael trawiad ar y galon. Fe wrthododd y Cynghorwyr Cymuned y syniad gan eu bod o'r farn y byddai hyn yn rhoi gormod o gyfrifolden ar un person, ond y byddai'n syniad rhoi poster yn Neuadd Drefach ac yn y Capeli yn dweud lle mae'r Defirbilliwr agosaf. *The training was held on Friday the 29th September and 17 people attended. It was raised that there is a requirement to monitor the machines monthly, change the battery ever 5 years and change the pads once the expiry date has passed, there is a cost involved with all of this. The Clerk was asked to contact Cwmsychpant Show in order to ensure that they are aware of this and to check that they will be in charge of covering the costs. The Clerk had also been approached by a member of the Community following the training, with an idea that a designated person could be allocated for each area so if someone was to have a heart attack that they could be called to come and assist. The idea was rejected by the Community Councillors as it was felt that this would provide too much responsibility on one person, but putting a poster in Drefach Hall and the Chapels stating where the nearest Defibrillator is would be a good idea.*
d.	Cafwyd dau gyflwyniad ar dydd Sadwrn y 30ain o Fedi, un am Desin yng Nghwmsychpant ac un gan Seimon Evans o Gwrtnewydd am hanes y Plwyf nol i Oes y Cerrig. Penderfynwyd ysgrifennu at Simon Evans yn ei ganmol am

	gyflwyniad arbennig a gofyn iddo a fyddai'n fodlon gwneud cyflwyniad tebyg unwaith eto ar ddechrau'r flwyddyn gan fod nifer o bobl wedi methu a mynychu'r digwyddiad. *On the 30th September two presentations were given one on Desin in Cwmsychpant and another by Simon Evans from Cwrtnewydd regarding the history of the Parish dating back to the Stone Age. It was decided to write to Simon Evans congratulating him on a brilliant presentation and asking him whether he would be willing to do a similar presentation again at the beginning of the year as many people were unable to attend.*
dd.	Cyflymder Drefach Speed Limit – Derbyniwyd dau lythyr drwy law Mr Griffiths ynglyn ai lythyr gwreiddiol, un wrth yr Heddlu a'r llall wrth y Cyngor Sir, dywedwyd bod y cyflymder yn cael ei fonitro ond ei fod yn anhebygol o gael ei newid yn y dyfodol agos.*Two letters of response to Mr Griffiths' letter had been received from Mr Griffiths' himself, one from the police and another from the County Council stating that the speed limit in the village is now being monitored but unlikely to change.*
4.	**Gohebiaeth – Correspondence**
a.	Un Llais Cymru One Voice Wales – Cyfarfod nesaf ar y 18fed o Hydref 2017 am 7pm ym Mhenmorfa mi fydd y Cyng Hazel Thomas yn mynychu. *The next meeting is on the 18th October 2017 at 7pm in Penmorfa, Cllr Hazel Thomas will attend.*
5.	**Cyfrifon –Accounts**
a.	Adroddiad Cwarterol –Quarterly Report – Derbyniwyd yr adroddiad. *The report was accepted.*
b.	Arwyddo Sieciau – Cheque Signatories –Diolch i'r rhai sydd wedi rhoi eu henwau ymlaen, mi fydd y Clerc yn eu hychwanegi. *Thanks to those who have put their names forward, the Clerk will add them.*
c.	Mae'r Cyngor Cymuned wedi cofnodi gyda'r 'Pension Regulator' ond nid oes angen iddynt dalu cyfraniad pensiwn i'r Clerc gan nad yw'r cyflog yn cyrraedd y targed. *The Community Council have now registered with the Pension Regulation however there is no requirement for them to pay a Pension Contribution to the Clerk as the pay is under the threshold.*
7.	**Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf - Date and time of next meeting**
a.	Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 7fed o Dachwedd am 7.30yh yn Neuadd Bentref Drefach. *It was decided to hold the next meeting on the 7th of November at 7.30pm at Drefach Village Hall.*
b.	Derbyniwyd cwyn am y coed sydd wedi eu torri gan Open Reach a'i gadael ar ochr yr hewl fawr, mae'n atal pobl rhag gweld ac yn crafu ochr ceir. *A*

	complaint was received regarding trees which have been cut by Open Reach and left on the side of the main road, it restricts visibility and scratched the sides of vehicles.
c.	Music Mania 14.10.17 Gorsgoch Hall.

Arwyddwyd……

Dyddiad……..